# Troswyr symudol

## Newidiadau i Reoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Troswyr Symudol) (Eithriad) 2022

**Datganiad**

Cyhoeddwyd: 8 Chwefror 2024

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................ 3

# 1. Trosolwg

1.1 Gall dyfeisiau trosi a osodir gan y cwsmer fod yn opsiwn da weithiau i bobl sydd am chwyddo signalau ffôn symudol dan do mewn mannau lle mae'r ddarpariaeth rhwydwaith yn wael. Gellir gosod a defnyddio'r dyfeisiau heb fod angen trwydded telegraffiaeth ddi-wifr – ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r telerau, darpariaethau a chyfyngiadau a nodir yn Rheoliadau 2022.

1.2 Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau'n datgan bod yn rhaid i **droswyr statig dan do** sydd wedi'u dylunio i chwyddo signal symudol 4G hefyd drosi signal 2G a/neu 3G, neu gefnogi'r bandiau amledd 2G/3G a ddefnyddir gan weithredwyr rhwydweithiau symudol (MNO). Mae hyn er mwyn sicrhau bod signal '999' 2G neu 3G argyfwng ar gael bob amser, os oes angen.

1.3 Fodd bynnag, mae'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol yn dechrau diffodd eu signalau 3G i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau 4G a 5G. Disgwyliwn iddynt ddiffodd eu signalau 2G yn y dyfodol hefyd. O dan yr amgylchiadau hyn, roeddem yn teimlo ei bod yn briodol ystyried a yw'r gofyniad 2G/3G, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2018, yn parhau i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

1.4 Ym mis Hydref 2023 gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn cynnig dileu'r gofyniad i droswyr 4G drosi signalau 2G/3G hefyd.

1.5 Ar yr un pryd, gwnaethom gynnig diweddaru'r gofynion technegol ar gyfer **troswyr symudol mewn cerbydau** i'w galluogi i chwyddo rhai signalau 5G, gan adlewyrchu darpariaethau a oedd eisoes ar waith ar gyfer troswyr dan do sefydlog.

1.6 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys hysbysiad statudol ffurfiol o'n bwriad i wneud rheoliadau newydd o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 i adlewyrchu'r cynigion hyn, yn amodol ar ystyriaeth o ymatebion gan randdeiliaid.

**Ein penderfyniad – yn gryno**

Rydym wedi penderfynu:

1. Dileu'r gofyniad i droswyr dan do sy'n chwyddo signal 4G hefyd gario signal neu amledd 2G a/neu 3G er mwyn cael eithriad trwydded. Bydd hyn yn caniatáu gosod a defnyddio troswyr 4G yn unig, yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau technegol sy'n weddill yn y rheoliadau eithriad trwydded.
2. Diweddaru Rheoliadau 2022 a'r Gofynion Rhyngwyneb cysylltiedig i alluogi troswyr symudol mewn cerbydau i chwyddo signalau yn y band 700 MHz, a'u gwneud yn niwtral o ran technoleg. Mae hyn yn eu galluogi i drosi signalau 5G yn y bandiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofyniad Rhyngwyneb.

Er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn, rydym wedi gwneud rheoliadau newydd o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i ddiwygio Rheoliadau 2022, a byddwn yn diweddaru ein Gofynion Rhyngwyneb cysylltiedig. Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar 29 Chwefror 2024.